Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: **Dydd Iau 4 Mehefin 2009**

Teitl: Corff amrywiol o fyfyrwyr ym mhrifysgolion Cymru

Mae ffigurau newydd ar gyfer y DU yn dangos bod prifysgolion a cholegau yng Nghymru wedi parhau i wneud yn dda wrth recriwtio myfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Mae'r sector addysg uwch (AU) Cymreig wedi cofnodi cyfrannau tebyg neu uwch o fyfyrwyr o'r mwyafrif o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch o'i gymharu â'r DU yn ei chyfanrwydd.

Mae'r ffigurau ar gyfer y flwyddyn academaidd 2007/08 yn dangos sut mae'r sector AU yng Nghymru wedi llwyddo i ehangu cyfranogiad mewn AU.

Hefyd fe ddangosodd y dangosyddion perfformiad blynyddol gyflawniadau'r sector AU Cymreig mewn meysydd penodol, a'i lwyddiant, yn arbennig, i recriwtio israddedigion amser-llawn a oedd yn derbyn lwfans myfyrwyr anabl, ac israddedigion amser-llawn ifanc o ysgolion y wladwriaeth.

Ar gyfer 2007/08 yng Nghymru, tynnir sylw arbennig at y canlynol:

- Roedd 93.6% o israddedigion amser-llawn ifanc a gofrestrodd yn SAUau Cymru yn 2007/08 o ysgolion neu golegau'r wladwriaeth, cyfran debyg i'r llynedd sy'n fwy na honno ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd, sef 88.5%. Roedd gan wyth o'r 11 SAU gyfrannau a oedd yn sylweddol uwch na'r meincnod. (Tabl 1b)

- Roedd 26.7% o israddedigion amser-llawn a gofrestrodd yn SAUau Cymru yn 2007/08 yn aeddfed, sy'n debyg i'r gyfran ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd, sef 26.5%. Roedd 12.2% o'r myfyrwyr hyn heb unrhyw brofiad blaenorol o AU ac yn dod o gymdogaeth lle'r oedd cyfranogiad yn isel: roedd hyn yn cymharu ag 11.5% ar gyfer y DU gyfan. (Tabl 2a)

- Mae'r gyfran o israddedigion amser-llawn yn SAUau Cymru sy'n derbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl (LMA) yn parhau i godi, gyda 5.8% yn derbyn LMA yn 2007/08. Mae hyn hefyd yn parhau'n fwy na'r gyfran ar gyfer y DU gyfan, sef 4.5% yn 2007/08. (Tabl 7)

- Yn achos israddedigion amser-llawn ifanc a gofrestrodd yn SAUau Cymru yn 2007/08, roedd y gyfran a oedd yn dod o Ddosbarthiadau NS-SEC 4, 5, 6 a 7 (30.8%) yn parhau'n fwy na'r gyfran ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd. (Tabl 1b)

Roedd y ffigurau hefyd yn tynnu sylw at yr heriau y mae SAUau yn eu wynebu i gadw myfyrwyr anhraddodiadol mewn addysg uwch ar ôl iddynt gael eu denu:

- Roedd y gyfran o fyfyrwyr gradd gyntaf amser-llawn ifanc yn SAUau Cymru o gymdogaethau cyfranogiad-isel yn 2006/07 nad oeddynt mewn AU yn 2007/08 yn 11.6%, sy'n uwch na'r gyfran ar gyfer y DU gyfan o 9.8%. (Tabl 3b)

- Yn achos myfyrwyr gradd gyntaf amser-llawn aeddfed a gofrestrodd yn SAUau Cymru yn 2006/07 heb unrhyw gymhwyster AU blaenorol, roedd y gyfran o fyfyrwyr nad oeddynt mewn AU yn 2007/08 yn 18.5%, sy'n uwch na'r gyfran ar gyfer y DU gyfan o 15.1%. (Table 3c)

Meddai'r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: "Mae'r ffigurau'n tanlinellu ymrwymiad ein prifysgolion a'n colegau i gynnig cyfleoedd i'r rheiny all elwa ar addysg uwch.

"Mae sefydliadau Cymru wedi dangos eu hymrwymiad i ehangu mynediad ers sawl blwyddyn drwy'r dangosyddion perfformiad hyn, ac maen nhw'n parhau i berfformio'n dda yng nghyd-destun y DU. Rydyn ni'n arbennig o falch o'u llwyddiant wrth recriwtio myfyrwyr anabl a myfyrwyr o ysgolion y wladwriaeth.

"Bydd sefydliadau addysg uwch yn parhau i ledaenu'r neges y dylai'r rheiny sydd â'r gallu i elwa ar y profiad addysg uwch roi cynnig arni. Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r rhaglen bartneriaeth *Ymgyrraedd yn Ehangach*, lle mae sefydliadau'n gweithio'n uniongyrchol ag ysgolion mewn ardaloedd dan anfantais, cymunedau ethnig lleiafrifol, pobl anabl a'r rheiny sydd â diddordeb mewn dilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg.

"Dylai'r gwaith hwn, ynghyd â'r cyllid ychwanegol sydd ar gael yn awr i ddenu ac, yn arbennig, cadw myfyrwyr sydd wedi bod yn anos eu recriwtio'n draddodiadol, arwain at welliannau pellach. Rydyn ni eisoes yn datblygu gwaith i roi sylw pellach i'r cwestiwn o gadw myfyrwyr, sydd bob amser yn wrthbwynt heriol i fentrau beiddgar i ehangu mynediad."

Diwedd

Nodiadau:

I gael rhagor o wybodaeth, cysyllter â:
CCAUC: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebu, 029 2068 2225
emma.raczka@hefcw.ac.uk
Hannah Falvey, Uwch Reolwr Ystadegau a Chyllido, 029 2068 2240
hannah.falvey@hefcw.ac.uk

Dangosyddion perfformiad

Ceir testun a thablau llawn ‘Performance Indicators in Higher Education in the UK 2007/08’ ar wefan yr AYAU yn www.hesa.ac.uk/pi.

Cyhoeddir y Dangosyddion Perfformiad gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (AYAU) ar ran pedwar corff cyllido addysg uwch y DU: Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr, Cynghorau Cyllido’r Alban, ac Adran Cyflogaeth a Dysgu Gogledd Iwerddon.

Cyflwynwyd cofnod myfyrwyr AYAU newydd yn 2007/08. Dylid cymryd hyn i ystyriaeth wrth wneud unrhyw gymariaethau â dangosyddion perfformiad blynyddoedd blaenorol.

Ni chynhwysir yr Alban yn ffigurau’r DU ar gyfer y tablau a ganlyn:
Tabl 1a, Tabl 1b, Tabl 1c (ffigurau cymdogaethau cyfranogiad-isel yn unig), Tabl 2a, Tabl 2b, Tabl 2c a Thabl 3b.

Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC), sy’n gyfrifol am weinyddu cyllid y trefnir ei fod ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi:

- addysg mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- ymchwil y mae SAUau yn ymgymryd ag ef; a
- chyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

Mae CCAUC hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr **hyfforddiant addysgu cychwynnol** ar gyfer athrawon ysgol a chomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant i athrawon.

Yn ychwanegol i’w gyfrifoldebau cyllid, mae CCAUC yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion, dyheadau a phryderon ynghylch cyllid y sector addysg uwch yng Nghymru.